

Mae'n rhaid i holl aelodau Cyngor CCAUC, ac aelodau allanol Pwyllgorau CCAUC, lenwi'r ffurflen hon.

Gweler y *Nodiadau Canllaw* ar y diwedd am gymorth i lenwi'r ffurflen.

Enw:	
Cyfeiriad:	
E-bost:	
Rhif Ffôn (yn ystod y dydd):	

Ar gyfer aelodau nad ydynt yn aelodau Cyngor yn unig, nodwch y Pwyllgor(au) CCAUC yr ydych wedi cael eich penodi iddo/iddyt:

--

Rhowch fanylion yr holl fuddiannau perthnasol yn yr adran isod, gan gynnwys eich buddiannau personol a buddiannau unrhyw berthnasau agos.

Os nad oes gennych unrhyw fuddiannau i'w datgan, teipiwch neu ysgrifennwch '**Dim**' yng ngholofn gyntaf rhes 1.

Sefydliad y ceir buddiant ynddo (chi ac/neu aelodau o'ch teulu)	Natur y buddiant (ee aelodaeth; cyfarwyddiaeth; llywodraethwr; ymddiriedolwr; swydd â thâl neu swydd anrhydeddus, neu gysylltiad arall â sefydliad AU neu AB, ac ati)
1.	
2.	
3.	

Sefydliad y ceir buddiant ynddo (chi ac/neu aelodau o'ch teulu)	Natur y buddiant (ee aelodaeth; cyfarwyddiaeth; llywodraethwr; ymddiriedolwr; swydd â thâl neu swydd anrhydeddus, neu gysylltiad arall â sefydliad AU neu AB, ac ati)
4.	
5.	
6.	
7.	
8.	
9.	
10.	

(Nodwch resi ychwanegol yn y tabl uchod, neu atodi dalenni ychwanegol, fel bo'r angen.)

Datganiad

Yr wyf yn datgan bod y manylion a gyflwynwyd gennyf yn gywir, ac yn ymrwymo i hysbysu'r Cyngor ynghylch unrhyw newid mewn amgylchiadau a fyddai'n golygu bod angen diwygio'r ffurflen hon.

Llofnod:

(gellir ychwanegu e-lofnod yma os ydych yn dychwelyd y ffurflen drwy e-bost)

Dyddiad:

Nodiadau canllaw

Mae'r egwyddorion a nodir yn y *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (y Cod)* yn berthnasol i holl aelodau Cyngor CCAUC, a hefyd i aelodau o bwyllgorau'r Cyngor.

Yn ôl y *Cod* mae'n ofynnol i bob aelod ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai wrthdaro â'u dyletswyddau cyhoeddus, neu a allai ymddangos fel eu bod yn gwneud hynny.

Ymdrin ag achosion o wrthdaro buddiannau

Mae'n hanfodol i aelodau osgoi, hyd y bo'n rhesymol bosibl, sefyllfa lle bydd buddiannau'n gwrthdaro. Dylid cymryd y camau canlynol o leiaf:

- Datgan ar y cyfle cyntaf, ar gyfer y gofrestr gyhoeddus a gadwir gan CCAUC i'r diben hwnnw, unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a gynhelir gennych a allai wrthdaro â'ch dyletswyddau cyhoeddus, neu a allai ymddangos fel eu bod yn gwneud hynny.
- Tynnu'n ôl o'r drafodaeth neu'r penderfyniad ynghylch materion y mae gennych fuddiant ariannol uniongyrchol ynddynt (mewn materion y mae gennych fuddiant ynddynt, ond nad yw'r buddiant hwnnw o natur ariannol uniongyrchol, dylech ystyried a fyddai cymryd rhan yn y drafodaeth neu yn y penderfyniad ynghylch y materion hynny yn awgrymu perygl gwirioneddol o ogwydd).

Cyfrifoldeb pob aelod yw sicrhau bod ei gofnod ar gofrestr CCAUC o fuddiannau'r aelodau yn fanwl gywir ac yn cael ei gadw'n gyfredol.

Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a gyflwynir gennych

Mae Ysgrifennydd y Cyngor yn cadw cofrestr o fuddiannau aelodau'r Cyngor a phwyllgorau'r Cyngor. Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddarau pan fydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cael gwybod am newidiadau gan aelodau Cyngor/Pwyllgor. Caiff y gofrestr hefyd ei hadolygu'n flynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'r gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar wefan CCAUC (www.hefcw.ac.uk).

Am fanylion pellach ynghylch ymdrin ag achosion o wrthdaro buddiannau, gweler adran 5 a pharagraffau 2-13 Atodiad y [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru](#), sydd ar gael ar wefan CCAUC.